

Cylchlythyr | Newsletter

Tymor yr Hydref (Hanner Tymor 2) 2025 | Autumn Term (Half Term 2) 2025



Neges Gan y Pennaeth | Message From the Headteacher

Hoffwn ddiolch i'n plant bendigedig am eu perfformiadau gwych yn ein cyngherddau Nadolig diweddar. Rwyf mor falch o bob un ohonynt. Hoffwn ddiolch i chi rieni am eich cefnogaeth ddiwyro i'n hysgol eleni, mae'r staff a minnau wir yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad. Mae'r ysgol wedi bod yn brysur gyda llawer o weithgareddau hwyliog yn ystod mis Rhagfyr a hoffwn ddiolch i'n CRhA gwych am eu cymorth. Gobeithio y gewch chi i gyd Nadolig llawen iawn a blwyddyn newydd dda a iachus.

I would like to thank our wonderful children for their excellent performances in our recent Christmas concerts. I am so proud of each and every one of them. I'd like to thank you parents and guardians for your unwavering support of our school this year, the staff and I genuinely appreciate your cooperation. The school has been busy with many fun activities during December and I would like to thank our brilliant PTA for their help with these events. I hope you all had a very merry Christmas and a happy and healthy new year.



Cymraeg

Y Siarter Iaith




Ein Targedau Siarter Iaith | Our Siarter Iaith Targets

Targed 1 Target 1	Siarad mwy o Gymraeg tu allan i'r ysgol Use more Welsh outside of school
Targed 2 Target 2	Gwrando ar fwy o gerddoriaeth Cymraeg Listen to more Welsh music
Targed 3 Target 3	Gwyllo mwy o raglenni Cymraeg Watch more Welsh programmes
Targed 4 Target 4	Siarad mwy o Gymraeg ar yr iard ac yn y coridorau Speak more Welsh on the yard and in the corridors
Targed 5 Target 5	Defnyddio apiau a thechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg Use more Welsh apps and technology

Y Gornel Ddysgu | The Learning Corner



Hello!	Shwmae!
Good morning	Bore da
Good afternoon	Prynhawn da
Good evening	Noswaith dda
Good night	Nos da
How are you?	Sut wyt ti?
May I have...?	Ga i...?



Ein Pigion Cerddorol | Our Musical Playlist

Gŵyl y Baban - Caryl Parry Jones
 Dymunwn Nadolig Llawen i chi - Mei Gwynedd
 Slon Corn Ydw I - Mynediad am Ddim
 Clychau'r Ceirw - Al Lewis

Cymraeg

Her Seren a Sbarc



Dyma 'Her Seren a Sbarc' mis Rhagfyr. Cofiwch i'n tagio ar y cyfryngau cymdeithasol gan trwy ddefnyddio'r tag @ysgolgybraeggilfachfargod.


Here is the 'Her Seren a Sbarc (Seren & Sbarc Challenge)' for the month of Rhagfyr (December). Please remember to tag us on social media using the tag @ysgolgybraeggilfachfargod.



Gwylwch 'Stori Nadolig Cyw'
Watch 'Cyw's Christmas story'




Dywedwch "Nadolig Llawen!!"
Say "Nadolig Llawen!"




Canwch gân "Dymunwn Nadolig Llawen"
Sing along to "Dymunwn Nadolig Llawen"




Dawnsiwch i gân Dymunwn Nadolig Llawen i chi
Dance along to Mei Gwynedd



Chwaraewch gêm "Campau Cyw"
Play the "Campau Cyw"



Ewch am dro i chwilio am bethau streipiog coch a gwyn!
Go for a walk and look for red and white stripy things!



Dosbarth Branwen



Mae ein hanner tymor cyntaf yn Dosbarth Branwen wedi bod yn llawn hwyl a chwerthin... o, ac ychydig bach o ddysgu! Rydym wedi bod wrth ein bodd yn dod i adnabod ein gilydd, meithrin perthnasoedd, a dysgu sgiliau sylfaenol fel eistedd ar ein lle ar y carped a gwrando ar gyfarwyddiadau. Fel y gallwch weld o'r llun, rydym hefyd wedi datblygu ein sgiliau mudol mân trwy edafu gleiniau ar llyn. Rydym wedi cael cymaint o hwyl ac allwn ni ddim aros i ddychwelyd ym mis Ionawr. Dymunwn Nadolig Llawen iawn a blwyddyn newydd dda i bawb.

Our first half term in Dosbarth Branwen has been full of fun and laughter... oh, and the odd bit of learning! We have loved getting to know each other, building relationships, and learning basic skills such as sitting on our spot on the carpet and listening to instructions. As you can see from the photograph, we have also been developing our fine motor skills by threading beads on to string. We have had so much fun and we can't wait to return in January. We wish everyone a very merry Christmas and a happy new year.

Dosbarth Dwynwen



Yn ystod y tymor hwn, bu Dosbarth Dwynwen yn dysgu am y thema “Nid yw pob arwr yn gwisgo clogyn”, gan ganolbwyntio ar arwyr yn ein cymuned. Cawsom ymweliad gan Wasanaeth Tân De Cymru, yn ogystal â PC Rhys, a ddaeth i siarad â ni yn y dosbarth. Dysgodd y plant am waith a chyfrifoldebau'r gwasanaethau brys, ac rydym yn gwerthfawrogi yr holl waith maen nhw'n ei wneud i helpu pobl a'n cadw ni'n ddiogel. Rydym hefyd wedi bod yn dysgu am wahanol fathau o fesuriadau, gan fesur taldra, hyd a phwysau, ac wedi parhau i ymarfer ein sgiliau Tric a Chlic. Gorffennwyd y tymor gyda chyngerdd Nadolig arbennig iawn - roedd y plant yn hollol wych ac rwy'n falch iawn ohonyn nhw i gyd. Nadolig Llawn!

This term, Dosbarth Dwynwen have been learning about the topic “Not all heroes wear capes”, focusing on heroes within our community. We were pleased to welcome visits from the South Wales Fire Service, as well as PC Rhys, who came to speak to us in class. The children learned about the roles and responsibilities of the emergency services, and we really appreciate all the work they do to help people and keep us safe. We have also been learning about different types of measurement, including measuring height, length and weight, while continuing to practise our Tric a Chlic skills. We finished the term with a very special Christmas concert - the children were absolutely excellent and I am so proud of them all.

Dosbarth Gelert



Mae'r hanner tymor hwn wedi bod yn un prysur ac yn gyffrous iawn. Ein thema'r tymor yma oedd "Arwyr," ac fe ddechreuon ni drwy ymchwilio i arwyr nodedig o bob cwr o Gymru a'u plotio ar fap. Ar ôl dysgu am amrywiaeth o unigolion ysbrydoledig, pleidleisiodd y plant dros eu hoff arwr Cymreig. Defnyddiwyd y canlyniadau i greu graff bar, gyda Gerwyn Price yn dod i'r brig. O ganlyniad, canolbwyntiodd ein dysgu ar Gerwyn Price fel arwr yn ein cymuned leol. Ymchwiliodd y plant i ffeithiau allweddol am ei fywyd, ei gyflawniadau, a'i lwyddiant yn y byd darts. Cynhyrchwyd hefyd hunanbortreadau creadigol wedi'u hysgrifennu o safbwynt Gerwyn Price ei hun. Yn ogystal, dysgodd y plant sut i chwarae darts a datblygu eu sgiliau drwy gydol y tymor. I ddathlu diwedd ein thema, mwynheun daith gyffrous i Darts Dungeon, a gafodd ei mwynhau'n fawr gan bawb. Perfformiodd a channodd y plant yn hyfryd yn y cyngerdd ysgol hefyd, gan arddangos eu gwaith caled a'u hyder. Da iawn chi blant!

This half term has certainly been a busy and exciting one. Our theme has been "Heroes," and we began by researching notable heroes from across Wales and plotting their locations on a map. After learning about a range of inspirational individuals, the children voted for their favourite Welsh hero. The results were used to create a bar graph, which revealed Gerwyn Price as the most popular choice. With this in mind, our learning then focused on Gerwyn Price as a hero within our local community. Pupils researched key facts about his life, his achievements, and his success in the world of darts. They also produced creative self-portraits written from the perspective of Gerwyn Price himself. In addition, the children learnt how to play darts and developed their skills throughout the term. To celebrate the end of our topic, we enjoyed an exciting trip to Darts Dungeon, which was thoroughly enjoyed by all. The children also performed and sang beautifully in the school concert, showcasing their hard work and confidence. Da iawn chi blant!

Dosbarth Bendigeidfran



Dosbarth Bendigeidfran have thoroughly enjoyed their topic Heroes' this term, with a particular focus on heroes of World War Two. The pupils learned about the importance of Remembrance Day and wrote thoughtful and moving poetry, which they had the opportunity to read at the cenotaph. They also explored Morse code, decoding messages and using it to ask one another questions. As part of the topic, the class examined a range of World War Two propaganda posters and even created their own, thinking carefully about the messages they wanted to communicate. They also learned about rationing, the experiences of evacuees, and what daily life was like during the war. One of the highlights of the term was when pupils brought in memoirs and medals belonging to family members and shared their stories with the class. This was a truly special and memorable experience for everyone involved. I would also like to share how incredibly proud we are of each and every pupil who performed in the school Christmas concert. Everyone sang and spoke with such confidence and clearly put great effort into learning their lines at home. Thank you to the parents for providing such fantastic costumes — they really helped to make the performance extra special.

Mae Dosbarth Bendigeidfran wedi mwynhau eu thema 'Arwyr' y tymor yma, gyda ffocws arbennig ar arwyr yr Ail Ryfel Byd. Bu'r disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd Diwrnod y Cofio ac ysgrifennwyd cerddi ystyrion a theimladwy, a gafodd eu darllen wrth y senotaff. Fe wnaethant hefyd ddysgu am God Morse, gan ddadgodio negeseuon a'i ddefnyddio i ofyn cwestiynau i'w gilydd. Fel rhan o'r gwaith, bu'r dosbarth yn edrych ar wahanol bosteri propaganda o'r Ail Ryfel Byd, ac fe gawsant gyfle i greu eu posteri eu hunain. Dysgwyd hefyd am ddogni bwyd, profiadau Faciŵs, a sut oedd bywyd bob dydd yn ystod y rhyfel. Un o uchafbwyntiau'r tymor oedd pan ddaeth rhai o'r disgyblion â chofiant a medalau aelodau o'u teuluoedd i'w rhannu gyda'r dosbarth. Roedd hyn yn brofiad arbennig iawn ac yn un cofiadwy i bawb. Hoffwn hefyd rannu pa mor falch rydyn ni o bob disgybl am eu perfformioedd anhygoel yng nghyngerdd Nadolig yr ysgol. Canodd a siaradodd pawb gyda hyder, gan ymdrechu i ddysgu eu geiriau gartref. Diolch yn fawr i'r rhieni am ddarparu gwisgoedd mor wych!


Presenoldeb | Attendance

Enillydd yr hanner tymor hwn:
This half term's winner:



Dosbarth
Branwen

Ein targed ysgol yw:
Our school target is:



93.5%

Rhaid cofnodi absenoldeb erbyn 10:00yb
Absences must be reported by 10:00am

A ddylai fy mhlentyn fynd i'r
ysgol/meithrinfa heddiw? Sganiwch
neu cliciwch ar y cod QR i gael
cymorth a chyngor.

Should my child go to school/nursery
today? Scan or click on the QR code
for support and advice.



Dyddiadur | Diary

Dyddiad Date	Digwyddiad Event
5/1/26	HMS INSET
15/1/26	Pêl-droed - Rownd 3 (Bl 5&6) Football - Round 3 (Yr 5&6)
20/1/26	Pêl-rwyd - Rownd 2 (Bl 5&6) Netball - Round 2 (Yr 5&6)
23/1/26	Diwrnod coch, gwyn a gwyrdd Wear something red, white or green
30/1/26	Athletau Dan Do (Blwyddyn 5 & 6) Primary Indoor Athletics (Selected Year 5 & 6 pupils)
6/2/26	Caffi Cymraeg (Dosbarth Dwynwen)
9/2/26	Crucial Crew (Blwyddyn 6) Crucial Crew (Year 6)
13/2/26	Dydd Miwsig Cymru Welsh Language Music Day
16/2/26- 20/2/26	Hanner Tymor Half Term

Cymdeithas

Rhieni &
Athrawon

Parent
Teacher
Association

Rydym yn hynod falch o gyhoeddi ein bod wedi codi cyfanswm o £750 yn ein Ffair Nadolig!

We are extremely proud to announce that we raised a grand total of £750 in our Christmas Fair!

